OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 163

# Rheoliadau Gwasanaethau Lleoli Oedolion (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019

## RHAN 19

### Rheoliadau o dan adran 21(5) o'r Ddeddf

**Dynodiad unigolyn cyfrifol gan Weinidogion Cymru**

**68.** Caiff Gweinidogion Cymru (yn lle darparwr gwasanaeth) ddynodi unigolyn i fod yn unigolyn cyfrifol, er nad yw gofynion adran 21(2) o'r Ddeddf wedi eu bodloni mewn cysylltiad â'r unigolyn, o dan yr amgylchiadau a ganlyn—

(a) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn sydd wedi marw ac mae cynrychiolwyr personol y darparwr gwasanaeth wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau nad ydynt yn bwriadu gwneud cais o dan adran 11(1)(c) o'r Ddeddf;

(b) bod y darparwr gwasanaeth yn unigolyn ac wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau—

(i) na all gydymffurfio â'i ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol mwyach, a

(ii) y rhesymau dros hyn;

(c) bod y darparwr gwasanaeth yn gorff corfforaethol neu'n bartneriaeth ac wedi hysbysu'r rheoleiddiwr gwasanaethau—

(i) nad yw'r unigolyn sydd wedi ei ddynodi gan y darparwr gwasanaeth fel yr unigolyn cyfrifol yn gallu cydymffurfio â'i ddyletswyddau fel unigolyn cyfrifol mwyach,

(ii) y rhesymau dros hyn, a

(iii) nad oes unrhyw unigolyn arall sy'n gymwys i fod yn unigolyn cyfrifol ac sy'n gallu cydymffurfio â dyletswyddau unigolyn cyfrifol.